**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 Chwefror 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes Lefel 1 – Adroddiad Monitro Chwarter 3 |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 3 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol yn nodi'r weledigaeth, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

2.2 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Ynghlwm mae adroddiad Monitro Chwarter 3 o'r Cynllun Busnes Lefel 1.

3.2. Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Lefel 1 fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o’r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE wrth ddatblygu’r Cynllun Busnes Lefel 1.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Monitro Chwarter 3.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r Cynllun Busnes yma'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae colofn ar ochr dde’r matrics yn cadarnhau be mae’r awdur yn datgan ym mharagraff 5 o’r adroddiad blaen, fod dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r cynllun hwn. Tra bydd yn heriol i weithredu pob agwedd o’r Cynllun Busnes, disgwylir y bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol o fewn ei gyllideb gyfredol.